Cyfarfod Mehefin 3/6/19.

Cofnodion Mai y 7/5/19.

Presennol:- Mr N G Marten(Cadeirydd),Mrs L Gillham,Mr Arwel Hughes,Mr P Jones,Mrs K Warburton,Mr R Owen, Mr k Hughes(Ynys mon)

Ymddiheuriadau:- Mrs E A Parry.

Cadarnhawd y cofnodion yn gywir gan Mrs K Warburton hefo Mr Arwel Hughes yn eilio,diolch.

Materion yn Codi,

Cof 1:-Y fynwent yn dwt iawn ac yn cael ei thorri yn rheolaidd, ond mae angen sylw i'r fynedfa ac angen cael arwydd yno hefyd,pawb yn gefnogl.

Cof2:- Pawb wedi arwyddo'r ffurflen yn gwrthod y taliad o £150.

Cof3:- Talwyd y bil Ysiwriant i BHIB, dim angen chwilio am bris arall oherwydd y cytundeb tair blynedd a ddaw i ben yn2021.

Cof4:- Mr N G Marten yn datgan diddordeb mynychu rhai or cyrsiau.

Cof5:- E8b Adroddiad y Pwyllgor Safonau- derbynwyd yr adroddiad, pawb yn hapus ar Cod Ymddygiad ond teimlad y cyfarfod yn gryf fod y pwyllgor Safonau yn ceisio rhoi pwysau ychwaneglol ar Gynghorwyr cyngorau Cymdeithasol i fynychu cyrsiau a phwyllgorau eraill.Mae swyddogion y Sir ar gyflogau da a mwya tebyg yn cael mwy o ddylanwad ar Gynghorwyr y Sir am eu bod yn derbyn lwfans teg! Datgelu data personol, fe ddyliau enw a chyfeiriad fod yn ddigon o wybodaeth i'r cyhoedd, eto pwysau i roi popeth yn gyhoeddus!

U F A.:-

Cof6:-Y Diffib wedi ei osod wrth ddrws yr ysgol, mwy o wybodaeth pan ddaw ar gael.

Cof7:- Angen mwy o finniau dal bagiau baw cwn, pobl yn eu gadael yn y safle bws neu wrth y teclun bagiau,wedi cysylltu ar Adran Wastraff,disgwyl am ateb.

Cof8:-Mr Arwel Hughes wedi derbyn cwyn fod yna dipyn o sbwriel ar dir yr ysgol,yn y darn o dan yr Eglwys ac ar hyd y llwybyr i fyny heibio'r byngalos.Mrs L Gillham ar Clarc wedi cyfarfod a Mrs M Peters ar contractwr torri am dri o'gloch ar y safle.Digon o chwyn a ragwort ar y tir wrth yr ysgol,yn ol i natur. Mrs Peters yn poeni mwy am y madfall (newts) na thaclusor safle .Y darn o dan yr eglwys yn ymddangos yn lan iawn a rhyw ychydig angen ei glirio ar y llwybr. Nid oedd Mrs Peters yn gwybod pwy oedd yn berchen ar y gwahanol ddarnau o dir! Y Brif Athrawes ddim yn fodlon i'r plant dacluso'r sbwriel felly cytunodd y clarc ei glirio.Coed wedi ei planu ar dir yr ysgol gan berchnogion y bynglo pella er mwyn

ceisio cuddior ysgol! Y Cyngor yn fodlon gwneud cysylltiad ar Pwyllgor Plant yr ysgol,dim wedi ei drefnu eto.

GOHEBIAETH 3/6/19’

Llythyrau Ebost.

LL1:- Glasdon Eb1:- Cynllunio Ty Rhos.

LL2:-BHIB Eb2:- Cynllunio Gronant.

AGENDA 3/7/19.

Presennol

Ymddiheuriadau.

Cadarnhau’r Cofnodion.

M yn Codi.

Gohebiaeth.

U.F.A.

£10,518.08, + £20(Rhodd) _£350.03= £10,188.05.

CADEIRYDD Clarc.